



Uchelgais Gogledd Cymru  
Ambition North Wales

---

# Cynllun Twf Gogledd Cymru Adroddiad Perfformiad Chwarterol

## 2024-25 Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi 2024)

# CYNNWYS

01	Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio	3
02	Perfformiad y Portffolio	4
03	Perfformiad y Rhaglen Ddigidol	5
04	Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel	7
05	Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo	10
06	Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	13
07	Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	15
08	Olrhain Cynnydd y Prosiectau	17
09	Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf- Achos Fusnes y Portffolio 2023	18
10	Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni (Medi 2024)	19
11	Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf	20
12	Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyranriad Cyllid Cyfalaf	21
	ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf	22

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Yn ystod y chwarter, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gwaith o gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf, gyda nifer o achosion busnes wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd:

- Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Cydnerth;
- Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch;
- Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiect y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol;
- Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiect LPWAN;
- Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

Mae hyn yn gweld y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, LPWAN a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth bellach yn barod i'w cyflawni gyda threfniadau yn parhau ar gyfer paratoi i lofnodi'r Cytundebau Ariannu.

Yn ystod y chwarter, fe wnaethom ail-lansio'r tendr ar gyfer Ymgynghorydd Cronfa Ynni Lleol Blaengar ar GwerthwchiGymru, a dangoswyd diddordeb sylweddol yn y cyfle. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dechrau mis Hydref, lle bydd gwaith i werthuso a phenodi yn dechrau.

Cytunwyd ar gytundeb Adran 106 ar gyfer prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru gan bwyllgor cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf, yn amodol ar gydymffurfio gydag amodau cynllunio cyn cychwyn.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio gyda Thyfu Canolbarth Cymru i ddiffinio lleoliadau blaenoriaeth ar draws y rhanbarthau sydd angen gwelliannau i dechnoleg 4G. Maent yn gweithio ar y cyd ar draws rhanbarthau er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer ein trigolion a sicrhau gwerth am arian. Y cais hwn yw gwedd gyntaf y prosiect Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol 4G sy'n anelu i wella argaeledd gwasanaethau llais a data symudol a gwasanaethau band eang ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ar draws y rhanbarth.

Gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflawni'r ffrydiau gwaith a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i'r amlwg yn ystod y chwarter nesaf, rydym yn gwneud cynnydd gwyach. Mae gwaith yn dirwyn i ben ar gefnogi awdurdodau lleol y rhanbarth i fabwysiadu cytundebau asedau a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect 4G. Gwnaed cynnydd mawr ar ein ffrydiau gwaith a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin: Mae 18 allan o 20 SME wedi derbyn cefnogaeth i ymchwilio i opsiynau ar gyfer mabwysiadu technolegau di-wifr uwch. Mae'r gefnogaeth ysgrifennu ceisiadau Ynni Lleol Blaengar bellach wedi cau ar gyfer ceisiadau, mae cyfanswm o 17 o sefydliadau yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan ein fframwaith o ddarparwyr.



**Alwen Williams**

**Cyfarwyddwr Portffolio  
Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 PERFFORMIAD Y PORTFFOLIO

Themâu	Statws RAG	Sylwadau
Achos Busnes y Portffolio		Cymeradwywyd diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio gan y Bwrdd ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.
Piblinell Cyflawni		Mae'r biblinell gyflenwi yn gyson gydag Achos Busnes Portffolio 2023, gyda phrosiectau yn adrodd yn erbyn yr amserlen hon ar hyn o bryd. Bydd y biblinell yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o Achos Busnes Portffolio 2024.
Llywodraethu		Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau.
Sicrwydd		Mae pedwerydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglen) wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Coch' ar gyfer y portffolio. Cynhaliwyd adolygiad Sicrwydd Cynllun Gweithredu (AAP) ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Gwyrdd'. Mae'r adolygiad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2024. Comisiynodd y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) adolygiad annibynnol o Lywodraethu a Sicrwydd, derbyniwyd adroddiad yn cynnwys 8 argymhelliad, mae'r PMO yn gweithio trwy'r argymhellion ar hyn o bryd.
Adnoddau a Chapasiti		Gadawodd Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf ei rôl ar ddiwedd mis Awst a bydd ei heilydd yn dechrau yn ei swydd ar 14 Hydref 2024. Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn mis Mawrth, mae contractau tymor penodol (ddim yn cynnwys staff a ariennir gan LEAP neu SPF) wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2026, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr.
Cyllid		Mae cyfanswm o £6.34m o gyllid y Cynllun Twf wedi'i wario hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys £2.15m ar y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol, £2.75m ar y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter a £1.44m i ariannu'r gwariant refeniw.
Buddsoddiad		Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar draws y portffolio. Bu'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi yn ystod eu cyfarfod ym mis Mawrth 2024.
Risg		Mae proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn gyson â Chwarter 1. Mae caffael y fframwaith gwasanaethau cefnogi (argymhelliad PAR 2023) ar y gweill ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2024. Mae nifer o risgiau gweddilliol uchel yn parhau sy'n cael eu rheoli gan y PMO gan gynnwys fforddiadwyedd, cydsynio, oedi a buddsoddiad.
Monitro a Gwerthuso Buddion		Mae sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal gydag Uchelgais Gogledd Cymru a Noddwyr Prosiectau ar sut i ddefnyddio'r platfform Adrodd am Fuddion a ddatblygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r prosiectau wedi uwch lwytho eu dangosyddion, a byddant yn dechrau poblogi'r platfform dros yr wythnosau nesaf, er mwyn galluogi i'r timau prosiect, rhaglen a phortffolio i dracio cynnydd tuag at amcanion a buddion gwariant.
Allyriadau a Bioamrywiaeth		Mewn partneriaeth gyda chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lanswyd gwedd 2 y prosiect Allyriadau a Bioamrywiaeth gyda'r amcan o (1) symleiddio'r dull yn unol â phrosesau achosion busnes llywodraeth leol a (2) hyfforddi dros 75 o reolwyr prosiect a phenderfynwyr ar draws Cymru sut i ddefnyddio'r dull. Mae drafft o'r fethodoleg symlach yn cael ei adolygu gan y PMO ar hyn o bryd.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg ar gymeradwyo tri achos busnes yn cynnwys Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a phrosiectau LPWAN, ynghyd â datganiadau i'r wasg ar dri ffrwd gwaith SPF. Roedd ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ymdrin â hyrwyddo cyfleoedd tendro, yn ogystal â manylion ein harolwg busnes sy'n canolbwyntio ar werth cymdeithasol. Parhaodd ein hymgysylltiad a'n cyrhaeddiad i dyfu ar gyfryngau cymdeithasol, gyda dros 8,500 o ddefnyddwyr ar y wefan.

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen


Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.



**Targed Creu Swyddi**  
**380**



**Targed Buddsoddi**  
**GVA**  
**£158m**



**Cyfanswm**  
**Buddsoddiad**  
**£41.7m**

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	<ul style="list-style-type: none"><li>Dechreuwyd ymgysylltu â'r farchnad ar gyfer prosiect Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol '4G +' y chwarter hwn. Mae gwaith hefyd yn dirwyn i ben ar gefnogi awdurdodau lleol y rhanbarth i asesu dichonoldeb mabwysiadu cytundebau mynediad asedau i gefnogi darpariaeth 4G.</li><li>Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol 'Di-wifr Uwch' y Campysau Cysylltiedig gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Medi ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes prosiect LPWAN ym mis Gorffennaf.</li></ul>



Cyng. Mark Pritchard  
Aelod Arweiniol



David Fitzsimon  
Uwch Berchennog  
Cyfrifol



Stuart Whitfield  
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
<b>Canolfan Prosesu Signal Digidol</b> Prifysgol Bangor	Cyflawni Prosiect	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwaith caffael ar gyfer trydedd wedd yr offer wedi'i gwblhau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno'r achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer trydedd wedd y cyllid i brynu offer.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwaith caffael ar gyfer gwedd olaf yr offer wedi'i gwblhau. Disgwylir Achos Cyfiawnhad Busnes Terfynol ddechrau mis Hydref.</li> </ul>
<b>Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf</b> Uchelgais Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadarnhawyd canlyniad cychwynnol gwaith caffael Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiect Gigabit y chwarter hwn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae disgwyl i Lywodraeth y DU alw am yr ail o ddau gontract cyn diwedd 2024.</li> <li>Prosiect cefnogi 'Cysylltedd Digidol Gwledig' y Gronfa Ffyniant Gyffredin i'w gwblhau.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yn y rhanbarth ar fin dechrau yn dilyn caffael presennol ar gyfer ei fframwaith 'traws-ranbarthol'. Bydd canlyniad hyn yn diffinio safle ar gyfer ymyrraeth y Cynllun Twf;</li> </ul>
<b>Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig</b> Uchelgais Gogledd Cymru <ul style="list-style-type: none"> <li><b>4G+</b></li> <li><b>Ffeibr Llawn</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r Achos Busnes Llawn (4G+)</li> <li>Datblygu'r Achos Fusnes Amlinellol (Ffeibr Llawn)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dechreuwyd ymgysylltu â'r farchnad am 4G+, sydd i fod i gau erbyn canol mis Tachwedd;</li> <li>Canlyniad y cyntaf o ddau gontract rhanbarthol a alwyd amdano gan Lywodraeth y DU.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu â'r farchnad am 4G+ yn dod i ben a drafftio telerau ariannu cynlluniau;</li> <li>Gwaith 'Cytundebau Mynediad' y Gronfa Ffyniant Gyffredin i'w gwblhau;</li> <li>Ail alwad gan Lywodraeth y DU am ei fframwaith traws-ranbarthol ar gyfer band eang gigabit.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Prosiect 4G+ bellach yn gweithio drwy ymgysylltu â'r farchnad a datblygu Achos Busnes Llawn heb unrhyw risgiau mawr ar hyn o bryd.</li> <li>Bydd prosiect Ffeibr Llawn yn ailgychwyn yn dilyn canlyniad caffael traws-ranbarthol terfynol Llywodraeth y DU ar gyfer band eang gigabit.</li> </ul>
<b>Campysau Cysylltiedig</b> Uchelgais Gogledd Cymru <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Di-wifr Uwch</b></li> <li><b>LPWAN</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r Achos Busnes Llawn (Di-wifr Uwch)</li> <li>Cyflawni Prosiect (LPWAN)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;</li> <li>Achos Busnes Amlinellol Di-wifr Uwch wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;</li> <li>Prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin sy'n cefnogi SMEs i ymchwilio i opsiynau ar gyfer mabwysiadu technolegau di-wifr uwch ar hyn o bryd ar 18/20 o darged gydag ymgynghoriadau terfynol i fod i gael eu cynnal ym mis Hydref.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caffael ar gyfer prosiect LPWAN i'w gwblhau a disgwylir i'r cynlluniau cyflawni cyntaf gael eu cyflwyno i Uchelgais Gogledd Cymru.</li> <li>Dechrau ymgysylltu â'r farchnad ar gyfer prosiect Di-wifr Uwch a drafftio telerau cynllun grant.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>LPWAN bellach yn symud i'r cam cyflawni.</li> <li>Di-wifr Uwch bellach yn datblygu Achos Busnes Llawn.</li> </ul>

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

## Nod y Rhaglen


Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.



Targed Creu Swyddi  
980



Targed Buddsoddi  
GVA  
£530m



Cyfanswm  
Buddsoddiad  
£668.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Cydnherth</b> - Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Gorffennaf. Ym mis Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganlyniad y cylch dyrannu diweddaraf (AR6) o Gontractau am Wahaniaeth gyda datblygwr Morlais i gael capasiti 10MW pellach, gan fynd â'r ymrwymiad cyffredinol ar gyfer y safle i 38.4MW.</li><li>• <b>Hwb Hydrogen Caergybi</b> - cynnydd sylweddol wedi'i wneud i gryfhau'r sefyllfa 'offtake' ar gyfer Hydrogen gyda Memorandwm o Ddealltwriaeth yn ei le gydag 'off-taker' masnachol yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen i'r camau nesaf.</li><li>• <b>Ynni Lleol Blaengar</b> - Cafodd gwaith caffael Ymgynghorydd y Gronfa ei lansio'n llwyddiannus ym mis Medi gyda diddordeb sylweddol yn y cyfle ar GwerthwchiGymru.</li></ul>



Cyng. Gary Pritchard  
Aelod Arweiniol



Dylan Williams  
Uwch Berchennog  
Cyfrifol



Elgan Roberts  
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
<b>Cydnherth (Morlais)</b> Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo;</li> <li>Cytundeb ariannu drafft wedi'i rannu;</li> <li>Caffael wedi dechrau;</li> <li>Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y cylch dyrannu diweddaraf (AR6) o Gontractau am Wahaniaeth gyda datblygwr Morlais i gael capasiti 10MW pellach, gan fynd â'r ymrwymiad cyffredinol ar gyfer y safle i 38.4MW.</li> <li>Cyllid ecwiti Llywodraeth Cymru yn ei le.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Costau terfynol gyda'r cyflenwyr a ffefrir;</li> <li>Parhau i drafod gyda WEFO a Menter Môn Morlais Ltd i alinio cytundebau;</li> <li>Paratoi ar gyfer cyflwyno FBC.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect yn ambr tra bod caffael contractwyr yn parhau.</li> </ul>
<b>NEW-H2</b> Uchelgais Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr Prosiect wedi'i benodi gan Noddwr y prosiect;</li> <li>Mwy o sesiynau denu wedi'u cynnal;</li> <li>Adborth wedi'i dderbyn ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda noddwr y prosiect.</li> <li>Cadarnhau amserlen datblygu'r achos busnes.</li> <li>Paratoi SOC</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect yn ambr yn dilyn llithriad i'r amserlen dros yr haf tra bod arweinydd newydd y prosiect yn cael ei recriwtio.</li> </ul>
<b>Egni</b> Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cam 3 RIBA wedi'i lofnodi a'i gadarnhau;</li> <li>Cynllun caffael wedi'i lofnodi;</li> <li>Caffael wedi dechrau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi contractwr ar gyfer y cam caffael nesaf.</li> <li>Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect yn parhau i fod yn ambr yn dilyn llithriad yn ystod cam 2 RIBA. Ar y trywydd iawn yn fras heb unrhyw lithriad pellach i'w ddisgwyl y chwarter hwn.</li> </ul>
<b>Ynni Lleol Blaengar</b> Uchelgais Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ail-lansio tendr Ymgynghorydd y Gronfa;</li> <li>Wedi dyrannu sawl grant cymorth ysgrifennu cais wedi'i ariannu gan SPF.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi ymgynghorydd y gronfa;</li> <li>Cau pecyn cymorth ysgrifennu ceisiadau a ariennir gan SPF;</li> <li>Cwblhau'r strategaeth fuddsoddi a'r Achos Busnes Llawn drafft.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect yn parhau i fod yn ambr tra bod gwaith caffael Ymgynghorydd y Gronfa yn parhau.</li> </ul>



# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
<b>Trawsfynydd</b> Cwmni Eginio	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafodaethau parhaus gyda sawl rhan-ddeiliad allweddol i ystyried opsiynau posib ar gyfer Safle Trawsfynydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim camau gweithredu sylweddol wedi'u cynllunio nes bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim newid; Nid yw Trawsfynydd yn debygol o gael ei ddewis yng ngwedd gyntaf datblygiadau niwclear newydd. Yn disgwyl am gadarnhad gan Lywodraeth y DU.</li> </ul>
<b>Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy</b> The Circular Economy Developments	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ariannwr y prosiect wedi cael trafodaeth gydag ariannwr sector preifat ynghylch opsiynau ariannu prosiectau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ariannwr y prosiect i gadarnhau a oes angen cyllid GD o hyd.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r sgôr risg yn parhau i fod yn goch tra bod cyllid prosiect yn cael ei gadarnhau.</li> </ul>
<b>Hwb Hydrogen Caergybi</b> Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect wedi arwyddo MoDd am 'offtake' disgwylidig o 50% gyda'r potensial i godi i 100%. Mae gan y prosiect hefyd arweinwyr cryf ychwanegol ar y gweill ar gyfer y 50% sy'n weddill neu a allai gefnogi'r galw i gynyddu'r sgôp i 10MW.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a DESNZ i archwilio cyfleoedd i sicrhau cytundebau 'offtake' gan y sector cyhoeddus;</li> <li>Cadarnhau amserlen datblygu achosion busnes gan fod mwy o sicrwydd ar 'offtake' bellach.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae statws RAG bellach yn ambr gan fod y sefyllfa 'offtake' wedi gwella'n sylweddol.</li> </ul>

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

## Nod y Rhaglen


Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.



Targed Creu Swyddi  
**2280**



Targed Buddsoddi  
GVA  
**£129bn**



Cyfanswm  
Buddsoddiad  
**£355.4m**

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Warren Hall, Brychdyn</b> - Mae ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'u hadolygiad o allu safle'r prosiect i fodloni achos diogelwch maes awyr Penarlâg.</li><li>• <b>Porth y Gorllewin, Wrecsam</b> - Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi penodi WSP i gynnal asesiad Lite Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae WSP wedi dechrau casglu tystiolaeth gwaelodlin a chytuno ar ragdybiaethau y gellir eu defnyddio yn eu model asesu.</li><li>• <b>Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych</b> - Cytunwyd ar gytundeb A106 gan bwyllgor cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf yn amodol ar gydymffurfio ag amodau cynllunio cyn cychwyn a chytundeb cytundeb A106. Mae trafodaethau ar y cytundeb ariannu gyda Jones Bros yn mynd rhagddynt yn dda.</li><li>• <b>Porth Caergybi</b> - Gofynnodd Stena Line Ports Limited am amser ychwanegol i gwblhau eu trafodaethau masnachol cysylltiedig gyda'r sector ynni oddi ar y môr. Nid oedd dyraniad o dan Gylch 6 y Contractau am Wahaniaeth ar gyfer prosiectau ynni gwynt ym Môr Iwerddon ac mae'r PMO wedi dehongli hyn fel oedi'r prosiect am o leiaf 12 mis.</li><li>• <b>Parc Bryn Cegin, Bangor</b> - Cafodd y Prosiect Adolygiad Porth 2 ym mis Medi a derbyniodd Asesiad Hyder Cyflawni Ambr. Bydd y PMO yn bwrw ymlaen â'r argymhellion gyda Llywodraeth Cymru a'r tîm proffesiynol.</li><li>• <b>Stiwdios Cinmel</b> - Mae cyfarfodydd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Uchelgais Gogledd Cymru, Roger Morris a Chwmni Cynhyrchu Ffilmiau wedi dechrau bob mis i asesu'r potensial i'r prosiect barhau gyda phrif noddwr newydd.</li><li>• <b>Porth Wrecsam</b> - Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn awr yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r cais cynllunio amlinellol. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar gasglu tir.</li></ul>

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
<b>Porth y Gorllewin, Wrecsam</b> Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gaffael WSP i ddarparu asesiad WelTAG Lite;</li> <li>Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi dechrau gyda'r ymgynghorydd gyda rhan-ddeliliaid gan gynnwys y PMO.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Asesiad WelTAG Lite i barhau gydag adroddiad i'w gyhoeddi yn Ch4 2024/25.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd sgôr risg y prosiect ei ddiwygio yn ambr ar ôl i Weinidog Trafnidiaeth a Gogledd Cymru nodi y gallai Llywodraeth Cymru adolygu argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Priffyrdd yn y dyfodol.</li> </ul>
<b>Warren Hall, Brychdyn</b> Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'u profion cydymffurfiaeth ar gyfer yr achos diogelwch maes awyr ar safle'r prosiect.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad ymgynghorydd Llywodraeth Cymru ar allu'r safleoedd i fodloni achos diogelwch y maes awyr i'w gwblhau a chanfyddiadau'r Adroddiad i'w rhannu gydag Airbus UK.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Sgôr risg y prosiect yn dal yn ambr gan nad yw adolygiad achos diogelwch y maes awyr wedi cael ei asesu a'i gytuno'n llawn gan Airbus UK.</li> </ul>
<b>Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych</b> Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych	Mae'r Achos Busnes Llawn wedi ei gymeradwyo, a mae'r prosiect yn symud ymlaen tuag at gyflawni.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Memorandwm o Ddealltwriaeth Cyllid Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gwblhau gan y Cyngor a'i ddychwelyd i Lywodraeth y DU ond oedi gyda'r cynnydd oherwydd Etholiad Cyffredinol a newid Llywodraeth.</li> <li>Cytundeb A106 wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio ond cynnydd araf ers mis Gorffennaf.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfeiriad am Gymorth Cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w gofrestru ar wefan yr Awdurdod;</li> <li>Cwblhau'r cytundeb ariannu gyda Jones Bros;</li> <li>A106 wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Ddinbych;</li> <li>Penderfyniad Llywodraeth y DU ar Gyllid Ffyniant Bro;</li> <li>Rhagwelir dechrau Gwedd 1 ar gyfer Ch1 2025.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Sgôr risg gwyrdd yn cael ei gadw ar gyfer y prosiect</li> </ul>
<b>Parc Bryn Cegin, Bangor</b> Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad Porth 2 wedi adrodd asesiad hyder Ambr.</li> <li>Prosiectau SP wedi cwblhau amcan y gyllideb derfynol ym mis Awst.</li> <li>Mae'r Achos Busnes Amlinellol a dogfennau cysylltliol yn parhau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol a dechrau ar y broses gymeradwyo.</li> <li>Dechrau ar y trafodaethau cyn cais cynllunio.</li> <li>Cytuno ar Gytundeb Menter ar y Cyd</li> <li>Gweithredu awgrymiadau Porth 2.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Sgôr risg gwyrdd wedi'i gadw ar gyfer y prosiect gan fod y prosiect ar y trywydd iawn i gyflwyno Achos Busnes Amlinellol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar ddiwedd 2024</li> </ul>

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
<b>Porth Caergybi</b> Stena Line Ports Limited	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Stena wedi gofyn am oedi datblygiad y prosiect tra'n disgwyl am ganlyniad eu trafodaethau masnachol gyda'r sector ynni ar y môr.</li> <li>Dim dyraniad ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y môr ym Môr Iwerddon yn Rownd 6 ar gyfer y Contractau am Wahaniaeth.</li> <li>Oedi o 12 mis o leiaf i'r Prosiect o ganlyniad i'r uchod. Cadarnheir y dehongliad hwn gan Stena sydd hefyd wedi nodi bod trafodaethau gyda'r Sector Ynni ar y Môr yn parhau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deialog barhaus gyda Stena o ran trafodaethau gyda datblygwyr Gwynt ar y Môr i asesu cynnydd.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Symudodd y sgôr risg i goch gan fod angen cwblhau trafodaethau gyda defnyddwyr terfynol ardaloedd porthladd newydd cyn bwrw ymlaen.</li> </ul>
<b>Stiwdios Kinmel</b>	Mae'r prosiect yn cael ei adolygu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae trafodaethau gyda'r cyn Reolwr Gyfarwyddwr i weld a oes ariannwr newydd ar gyfer y prosiect yn parhau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynigion diwygiedig i'w cyflwyno i'w hystyried erbyn diwedd 2024.</li> <li>PMO i wneud ymchwiliadau ei hun ynghylch galw a chyflenwi gofod stiwdio o fewn y DU.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae sgôr risg yn parhau i fod yn goch hyd nes y ceir rhagor o wybodaeth.</li> </ul>
<b>Porth Wrecsam</b> Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi Tîm Ymgynghori i ddatblygu Cais Cynllunio Amlinellol.</li> <li>Cynnydd cadarnhaol gyda chasglu tir gan y Cyngor.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r Cais Cynllunio gan y Cyngor.</li> <li>Cwblhau Cytundeb ar gyfer adleoli cyflogaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth y DU i Wrecsam.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Graddfa risg yn wyrdd o ystyried bod y prosiect yn symud i'r cam nesaf.</li> </ul>



Cyng. Jason McLellan  
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow  
Uwch Berchennog  
Cyfrifol



David Mathews  
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

## Nod y Rhaglen


Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn uchafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cyfleusterau cefnogol i sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau i ragori ac i fod gyda'r gorau yn y byd. Bydd y Rhaglen hefyd yn sicrhau ffyniant drwy fanteisio i'r eithaf mewn modd cynaliadwy ar ein hamgylchedd a'n tirwedd.



**Targed Creu Swyddi**  
**380**



**Targed Buddsoddi GVA**  
**£281m**



**Cyfanswm Buddsoddiad**  
**£41.3m**

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
